# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 26 Tachwedd 2014** |
| Amser: | **09.06 - 12.09** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2509**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Rees AC (Cadeirydd)**<br>**Alun Davies AC**<br>**Janet Finch-Saunders AC**<br>**John Griffiths AC**<br>**Elin Jones AC**<br>**Darren Millar AC**<br>**Lynne Neagle AC**<br>**Gwyn R Price AC**<br>**Lindsay Whittle AC**<br>**Kirsty Williams AC** |
| Tystion: | **Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**<br>**Mark Drakeford AC, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**Tracey Breheny, Llywodraeth Cymru**<br>**Dr Sarah Watkins, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Madeley (Clerc)**<br>**Helen Finlayson (Ail Clerc)**<br>**Rhys Morgan (Dirprwy Glerc)**<br>**Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Amy Clifton (Ymchwilydd)** |

**Trawsgrifiad**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Blaenraglen waith y Pwyllgor

1.1 Bu'r Aelodau'n trafod y flaenraglen waith, gan gytuno y byddent yn dod yn ôl at yr eitem hon ar ddyddiad arall.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 3 Sesiwn graffu gyffredinol ar waith Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

3.1 Bu'r Comisiynydd yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.
3.2 Cytunodd y Comisiynydd i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor yn amlinellu'r pwyntiau sydd fwyaf perthnasol i'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) sydd ar ddod, sy'n deillio o'i hadolygiad o ansawdd bywyd a gofal i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru.

## 4 Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd ("cyffuriau penfeddwol cyfreithlon"): sesiwn dystiolaeth 7

4.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau.
4.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor yn nodi'r amcangyfrif o gostau i GIG Cymru o'r carchar arfaethedig yng Ngogledd Cymru.

## 5 Papurau i'w nodi

5.0a Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd a 12 Tachwedd 2013.

5.1 Craffu ar waith y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd: gohebiaeth gan y Prif Weinidog
5.1a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Prif Weinidog.

5.2 Sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Prif Swyddog Meddygol: gwybodaeth ychwanegol gan y Prif Swyddog Meddygol
5.2a Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y Prif Swyddog Meddygol.

5.3 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2015-16: gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid

5.3a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid a chytunodd i drafod y llythyr yn fanylach yn ei gyfarfod nesaf ar 10 Rhagfyr.

5.4 Ymchwiliad i'r cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru: gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
5.4a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Sesiwn graffu gyffredinol ar waith Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru: ystyried y dystiolaeth a gafwyd.

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 8 Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd ("cyffuriau penfeddwol cyfreithlon"): ystyried y dystiolaeth a gafwyd

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.